Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

WILLIAMS, THOMAS ('Hafrenydd'; 1807 - 1894), cerddor

Enw: Thomas Williams
Ffugenw: Hafrenydd
Dyddiad geni: 1807
Dyddiad marw: 1894
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd 7 Rhagfyr 1807 yn Llanidloes, Sir Drefaldwyn. Dechreuodd astudio cerddoriaeth yn 10 oed, a chafodd ychydig wersi gan William Owen, Drefnewydd, a thrwy astudio'r gwerslyfrau cerddorol daeth yn gerddor da. Ei gyfraniad pwysig i gerddoriaeth Cymru oedd dwyn allan, yn 1846, *Y Salmydd Cenhedlaethol*, yn cynnwys salm-donau, tonau, a darnau corawl cysegredig wedi eu dethol o weithiau Handel, Haydn, Mozart, Beethoven, Kent, Farrant, ac eraill. Dyma'r llyfr cyntaf a gafodd y genedl o gerddoriaeth y meistri. Ynddo hefyd y ceir y dôn 'Llandinam,' 8.7.4., o drefniant 'Hafrenydd' dan yr enw 'Erpingham.' Ar y 40 tudalen olaf o'r llyfr ceir hyfforddiant cerddorol dan yr enw 'Trefn Wilhelm i ddysgu Canu.' Yn 1852 dug allan *Ceinion Cerddoriaeth*, yn cynnwys 220 o donau, a 70 o anthemau a chytganau o weithiau y meistri. Ar ddiwedd y *Ceinion* ceir *Geirlyfr Cerddorol* a ddygwyd allan wedi hynny yn llyfr ac a fu o wasanaeth mawr i gerddorion Cymru ddeall y termau cerddorol Eidaleg, etc. Cyhoeddodd hefyd *Hymnau Nadolig*, *Y Rheol Gristnogol am Briodas*, *Y Gwirionedd a Chyfeiliorniad*. Derbyniodd swm o arian gan y Llywodraeth yn gydnabyddiaeth am ei wasanaeth i gerddoriaeth a llenyddiaeth. Bu farw 16 Rhagfyr 1894 a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Llanidloes.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Y Cerddor, Chwefror, Tachwedd, Rhagfyr 1895

R. D. Griffith, *Hanes canu cynulleidfaol Cymru* (Caerdydd 1948)

Gweithiau

Thomas Williams, *Y cydymaith teuluaidd a chyfarwyddwr i iechyd* (Llanidloes 1854)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28361707

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Griffith, R. D., (1953). WILLIAMS, THOMAS ('Hafrenydd'; 1807 - 1894), cerddor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-THO-1807

Copïo'r cliptrwydd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government